



Athro ADY a Sgiliau SYLFAENOL (Dros Dro)

Hyd at 31 Awst 2026

Ysgol Friars

DISGRIFIAD SWYDD

DIBEN

Rydym yn chwilio am athro cynradd brwdfrydig ac ymroddedig i ymuno â ni yn Ysgol Friars. Mae Ysgol Friars wedi ymrwmo i ddatbygu'r agenda cynhwysiant a sicrhau bod anghenion ein disgyblion yn cael eu diwallu. Rydym yn agor dosbarth arbenigol ar gyfer nifer fach o ddisgyblion gydag ystod o anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys anawsterau dysgu cymedrol a dwys ac anhwylder sbectwm awtistiaeth. Rydym yn chwilio am rywun sy'n gallu datblygu'r Cwricwlwm i Gymru yn greadigol i ddiwallu anghenion ein disgyblion, gan roi pwyslais sylweddol ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Bydd disgwyl i chi ddarparu rhaglen addysg holistig, sy'n integreiddio anghenion corfforol, academiaidd, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion unigol. Bydd gan bob disgybl Gynllun Datblygu Unigol (CDU) ac mae ganddynt oedi sylweddol yn eu dysgu.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda'r tîm ADY a hefyd yn cymryd rhai cyfrifoldebau o fewn y tîm, mewn partneriaeth â'n CADY.

CYFRIFOLDEBAU AC ATEBOLRWYDD ALLWEDDOL

- Cymryd cyfrifoldeb am ddosbarth o ddisgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol a/neu dwys a/neu awtistiaeth.
- Darparu enghreifftiau o arferion addysgu da a rhagorol gan gynnwys paratoi a chynllunio, rheoli ystafell ddosbarth a chynnal perthynas waith effeithiol â disgyblion a chydweithwyr.
- Sicrhau bod gwahaniaethu priodol ar waith a defnyddir strategaethau addysgu effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion ag ystod eang o anghenion cymhleth.
- Datblygu cynnig cwricwlwm integredig sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd cynnar yn ogystal ag ymagwedd ymarferol addas at yr MDaPh.

- Sicrhau bod anghenion disgyblion fel yr amlinellir yn y Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael eu diwallu'n llawn
- Cefnogi cynnwys lle bo'n briodol mewn gwersi prif ffrwd
- Gosod targedau cyraeddadwy ar gyfer disgyblion a chofnodi ac adrodd ar gynnydd yn dilyn canllawiau'r Ysgol, gan sicrhau bod camau bach yn ddogfennau byw
- Monitro a gwerthuso cynnydd disgyblion: gwneud asesiadau a darparu adroddiadau ar gyfer pob disgybl yn unol â chanllawiau'r Ysgol
- Paratoi dogfen adolygu flynyddol fanwl a chynhwysfawr
- Rheoli'r tîm dosbarth: trefnu defnyddio a chyfeirio staff cymorth yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth a chefnogi datblygiad tîm effeithiol.
- Gweithio'n effeithiol gyda thimau eraill yn yr ysgol i gyfrannu at gynllunio a chyflawni'r cwricwlwm.
- Gweithredu polisïau a chanllawiau ysgol y cytunwyd arnynt.
- Darparu amgylchedd ystafell ddosbarth ysgogol, lle gall pob disgybl gael mynediad priodol at adnoddau.
- Cynnal amgylchedd diogel i ddisgyblion, yn unol â pholisïau'r ysgol.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd sy'n ymwneud â chynnydd disgyblion a datblygiad cyfnod
- Cyfathrebu a chydweithredu â gweithwyr proffesiynol eraill o asiantaethau allanol i sicrhau gweithio aml-asiantaeth effeithiol
- Cymryd rhan ym mhroses datblygiad proffesiynol yr Ysgol
- Sicrhau bod diogelwch, diogelu a lles pob disgybl yn flaenoriaeth

MANYLEB PERSON

Priodoledd au		Anghenrhaid
	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau a Hyfforddiant	- Statws Athro Cymwysedig - Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol diweddar sy'n effeithio ar ansawdd yr addysgu a chanlyniadau disgyblion	- Profiad o weithio gyda disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol - Profiad o redeg ymyriadau llythrennedd a rhifedd
Profiad a Sgiliau	- Tystiolaeth o lefel uchel o arbenigedd mewn addysgu a dysgu - Gwybodaeth weithredol o strategaethau a thechnegau ar gyfer codi cyrhaeddiad disgyblion yn gyffredinol gan gynnwys disgyblion ag anawsterau difrifol - Profiad o ystod o weithdrefnau asesu cyfunol a ffurfiannol - Sgiliau TGCh cryf	- Profiad o ddatblygiadau'r Cwricwlwm ac addasu'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol - Profiad o ddyletswyddau sefydliadol a gweinyddol

	Hanfodol	Dymunol
Dysgu proffesiynol	Cyfranogiad gweithredol mewn DPP diweddar a pherthnasol sydd wedi effeithio ar ganlyniadau ac addysgeg disgyblion	
Gwella addysgu a dysgu	- Ymarferydd dosbarth rhagorol sy'n gallu modelu addysgu da/rhagorol - Gwybodaeth a phrofiad o ystod o arddulliau addysgu a dysgu sy'n adlewyrchu dilyniannau strwythuredig o ddysgu i gynnwys dysgu trawsgwricwlaidd a dysgu sy'n canolbwyntio ar sgiliau. - Gwybodaeth weithredol am asesu, gan ddefnyddio hyn i gynllunio targedau, mesur cynnydd a chofnodi tystiolaeth	

	Hanfodol	Dymunol
Gwybodaeth am addysg	• Set glir o werthoedd i greu ethos dysgu cadarnhaol	
Gweithi o gyda Phobl	• Sgiliau rhyngpersonol cryf: y gallu i arwain, ysgogi, herio ac ysbrydoli cydweithwyr a rhoi adborth mewn ffordd gefnogol • Yn gallu adeiladu gallu tîm • Yn gallu sefydlu hygredd gyda'r holl staff • Gallu sefydlu perthynas gadarnhaol â rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr • Gallu profedig i arwain tîm dosbarth o gynorthwywyr addysgu profiadol • Sgiliau pobl rhagorol, adeiladu perthynas â staff a theuluoedd i sicrhau tîm agos o amgylch pob plentyn	• Profiad o weithio gydag asiantaethau neu sefydliadau eraill

	Hanfodol	Dymunol
Sgiliau, rhinweddau a phriodoled au allweddol	• Disgwyliadau uchel ac ymrwymiad i godi safonau cyrhaeddiad i bob disgybl • Ymrwymiad i gyfle cyfartal a gwerth cyfartal i ddisgyblion a chydweithwyr • Enghreifftiau o wydnwch proffesiynol, a phositifrwydd • Gallu cofleidio newid a helpu eraill i reoli'r broses newid • Sgiliau trefnu a rheoli personol da • Yn gallu gweithio'n effeithiol fel rhan o dimau ar bob lefel • Ymrwymiad i weithdrefnau diogelu • Yn gallu gweithio'n annibynnol ac yn rhagweithiol • Deall pwysigrwydd dyddiadau cau • Hyblyg	

